# Cymdeithas Ddirwestol Pentyrch

( SEFYDLWYD MEHEFIN 1838 )

***gan Don Llewellyn***

**Nid yw pob eitem ym meddiant hanesydd lleol yn dangos ei werth ar yr olwg gyntaf. Yn aml, dim ond ar ôl archwiliad mwy manwl mae'r cynnwys yn tanio'r dychymyg. Dyna oedd fy mhrofiad i yn achos llyfryn bach a ddaeth i'm meddiant yn ddiweddar. Record mewn llawysgrif ydyw o gymdeithas ddirwestol a ffurfiwyd yn y flwyddyn 1838 ym Mhentyrch ar gyrion tref Caerdydd.** Er bod y cloriau'n ddigon bregus a di-sylw, mae yna drysor o wybodaeth rhyngddynt. Dysgwn am y math o bobl leol a oedd yn barod i gymryd y llw ddirwestol: enw pob un, ei oedran, ei aneddle, ei alwad, a dyddiad ei ardystiad. Ym mhlith y dirwestwyr, mae amaethwyr, tyddynwyr, melinwyr, gweision, ysgrifenyddion, seiri, cryddion, mwynwyr a glowyr. Mae cynifer o fenywod ar y rhestr, ond yn fwy anesboniadwy, ceir babanod ym mreichiau eu mamau, hefyd.



| Rhif | Cyfenw | Oed | Aneddle | Galwad | Amser ardystio |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Edm^d William | 32 | [illegible] Pentyrch | Amaethwr Glowr | Mehefin 25 1838 |
| [illegible] | John Thomas | 16 | [illegible] | ditto | Mehefin 21 1837 |
| 15 | Jos^t James | 54 | ditto | Relieving Officer | [illegible] 14 1840 |
| 16 | Morgan Evan | 16 | [illegible] Pentyrch | Glowr | Mai 4 1838 |
| 17 | W^m Evan | 44 | ditto | ditto | Chwefror 19 1838 |
| 18 | John Jenkins | 38 | [illegible] Pentyrch | Crydd | [illegible] 4 1840 |
| 19 | [illegible] Thomas | 52 | Pentwyn | | Mehefin 25 1838 |
| 20 | John Thomas | 45 | ditto | Tyddynwr | Mehefin 25 1838 |
| 21 | [illegible] | 26 | Pentyrch | Amaethwr | Chwefror 14 1840 |
| 22 | John Jones | 29 | Castell y Mynach | Tyddynwr | Hydref 6 1838 |
| 23 | Elizabeth Jenkins | 12 | [illegible] | | Mehefin 19 1838 |
| 24 | Sara William | 52 | [illegible] | | Mehefin 25 1838 |
| 25 | Job David | 63 | [illegible] | Amaethwr | Mehefin 25 1838 |
| 26 | Job James | 15 | Pencoed Mill | ditto | Mai [illegible] 1839 |
| 27 | W^m Joseph | 12 | ditto | Carier | Ion 4 1841 |
| 28 | [illegible] Miles | 20 | Pencoed | | ditto | 
| 29 | Mary Evans | 13 | Caerdydd | | ditto |
| 30 | Mary Mathews | 15 | Pencoed | | ditto |
| 31 | Martha [illegible] | 19 | Craig Gwilim | | ditto |
| 32 | Ann Hugh | 15 | [illegible] | | Medi 10^th 1838 |
| 33 | Ann Hugh | 37 | ditto | | ditto |

*Rhestr o aelodaeth Cymdeithas Ddirwest Pentyrch*

### Merched, hefyd, yn cymryd y llw ddirwestol

Diddorol yw sylwi bod o leiaf un menyw, Mary Jenkins, yn gweithio fel crydd yn y pentref, a bod ambell i blentyn yn y cyfnod hwnnw yn gwneud gwaith oedolyn, megis John William o'r Forlan (11 oed) yn cael ei restru fel amaethwr, a William Joseph (12 oed) o Felin Pencoed fel cludwr. Ymhlith yr wyth unigolyn a breswyliai ym Melin Pencoed, roedd Thomas Evan (9 oed) yn cael ei restru fel gwas.

Yr oedd geiriau'r ardystiad yn blwmp ac yn blaen:

*Yr wyf yn ymrwymo yn wirfoddol i lwyr ymwrthod â phob diodydd meddwawl, a pheidio eu rhoddi na'u cynnig i eraill, ddieithr dan gyfarwyddyd meddyg, neu mewn ordinhad grefyddol.*

*Fod i bob un a ewyllisio fod yn aelod o'r Gymdeithas, bresenoli ei hun yn y Gymdeithas fel y derbynio hysbysiad o'r reolau.*

*Fod i bob un dderbyn cerdyn neu arwydd yr aelodaeth am daliad o un geiniog.*

*Fod i bob un dalu ceiniog yn y mis at draul y Gymdeithas.*

*Fod i bob un ymweld a'r Gymdeithas o leiaf bob chwech wythnos, ddieithr fod amgylchiadau yn rhwystr.*

*Nid oes i un aelod i ddwyn unrhyw draul ar y Gymdeithas heb gydseiniad yr rhan amlaf o'r aelodau.*

Er nad yw'r enwau yn nhrefn yr wyddor na threfn gronolegol, ychwaith, mae sawl eitem ddiddorol yn codi o'r rhestrau. Gwelwn fod cyfenwau trigolion y plwyf hyd 1838 heb gynnwys yr 's' terfynol - yr hyn a fyddai'n orfodol yn ddiweddarach. Felly, mae cyfenwau Evan, Richard, David, Watkyn, William a Griffith yn gyffredin iawn.

Yr hyn sy'n syndod yw mai prin iawn yw'r dystiolaeth fod y glowyr lleol yn cefnogi'r achos. Efallai fod hyn yn awgrymu bod mwynwyr haearn yn fwy cymhedrol na chloddwyr glo! Hefyd, er bod Gwaith Haearn Pentyrch, yn y cyfnod hwnnw, yn brysur iawn, dim ond Charles Prichard, y clerc ifanc, a chroten, Jane Morgan (12 oed), sydd yn gysylltiedig â'r sefydliad hwnnw.



*Y Guild Hall, Llantrisant lle y cynhelid y cyfarfodydd Dirwestol.*

### Dirwestwr yn troi yn dafarnwr

Mae dirwest wedi bod yn bwnc dadleuol iawn o oes i oes yn ardal Pentyrch. Dywedodd un o gewri'r mudiad dirwestol yng Nghaerdydd yn oes Fictoria: *"Mi ddylai 'John Barleycorn' (Sion Heidden) gael ei gladdu yn ddwfn ym mynydd y Garth ger Pentyrch. Hefyd, dylai fod yn gorwedd ar ei wyneb rhag atgyfodi ac yn ceisio crafu ei ffordd allan. Pe bai hynny yn digwydd, fe fyddai ei ymdrechion yn mynd ag ef yn ddyfnach byth i mewn i grombiliau'r mynydd"*. Yn anffodus (yn ôl traddodiad llafar hanesion lleol), fe ildiodd awdur y cyngor hwn i brofedigaeth a threuliodd ei ddyddiau olaf fel tafarnwr rhywle yn y cymoedd. Fel hyn mae anwadalwch bywyd!

Heb ddim amheuaeth, yr oedd ymgais y mudiad dirwestol i gael gwared â chamdefnydd alcohol o'r gymdeithas yn fwriad gwirioneddol ganmoladwy - ond tasg anodd iawn yw mesur llwyddiant yr ymgyrch. Ym 1838 yr oedd ffyniant cynyddol yn amlwg yn rhai adrannau o'r gymuned, ond bu tlodi yn gyffredin iawn hefyd. Yn eironig, roedd cyfoeth a thlodi, ill dau, yn arwain at oryfed. Canlyniad hyn oedd difyrrwch i'r naill ddosbarth - ond anobaith i'r llall.

Er bod y testun yma yn drist, am ryw reswm neu'i gilydd, mae trigolion Pentyrch, dros y canrifoedd, wedi mynnu gweld ochr ddoniol iddo, a bu ambell i chwerthiniad wrth i hanesion ynglŷn ag anturiaethau William Morgan (Ficar Plwyf Pentyrch ym 1747) gael eu hadrodd. Arestiwyd yr offeiriad truenus hwnnw sawl gwaith am fod yn feddw tra yng ngofal ceffyl.

( Parhâd ar dudalen 9 )

*( Parhâd o dudalen 7 )*

Yn Oes Fictoria, un o arweinwyr y gwrthddirwestwyr oedd Horatio Thomas, ficar y plwyf. Rydym yn ddiolchgar i Dr. R. Elwyn Hughes am ei ymchwil ynglŷn â chymeriadau trigolion Pentyrch yn y cyfnod hwnnw. Mae ef wedi darganfod sawl cyfeiriad at Horatio, yr offeiriad lliwgar yma yn nhudalennau cyhoeddiadau fel *Y Gwladgarwr, Y Diwigiwr* a *Tywysydd y Plant*. Mewn erthygl yn *Y Lladmerydd*, cawn weld pa mor selog oedd Horatio dros achos y diotwyr, yn gyffredinol, wrth ystyried cyfarfod a gafodd ei gynnal yn Llantrisant yn 1842 er mwyn trafod perthynas y Beibl â dirwest.

Yng ngeiriau y Parch Daniel Thomas, Ffynnon Taf:

*'Ar un ochr i'r ddadl roedd Horatio gyda'i gyfaill Ieuan Myfyr o Bontypridd ac eraill; ar y llall, sawl hoelen wyth yr eglwysi anghydffurfiol lleol. Bu Horatio a'i griw yn rhesymu fod troi y dwr yn win gan yr Iachawdwr yng Nghana Galilea yn profi eu pwynt. Dadleuent nad oedd y fath beth yn bod a gwin anfeddwol, ac yr oedd y ffaith hon yn ddigon, yn ôl eu tyb hwy, i roddi taw ar holl ddirwestwyr y byd. Ac yn wir, yr oedd y blaid ddirwestol yn cerdded yn ysgafn iawn dros yr engraifft hon, ac yn teimlo yn ddrwg ganddynt i'r gwin rhedeg yn fyr yn y briodas, fel ag i alw am wyrth oedd yn rhoddi benthyg ei hun mor rhwydd i'r gelyn. Ond nid oedd dim i'w wneud ond pasio heibio i'r ffaith hon, ac aros y tu cefn i rai eraill oedd yn fwy ffafriol'.*

## Ymgyrch i gael hyd i'r ddiod anfeddwol

*'Pe byddai ond yn bosibl cael gwin anfeddwol! Mi fyddai hwn yn erfyn amhrisiadwy i'r dirwestwyr. Gellir dychmygu'r gorfoledd pan ddaeth gair fod gwin anfeddwol yn bod, a hynny yn Aberystwyth. Ond nid hawdd oedd ei gyrchu oddi yno gan nad oedd yr un tren a'r unig ffordd oedd cerdded. Trueni fod Aberystwyth mor bell i ffwrdd! Yn sicr, byddai bodolaeth gwin anfeddwol yn y ddadl gref yng ngwersyllt y dirwestwyr ac yn ddamniol i'r gwrth-ddirwestwyr'.*

Y canlyniad fu i un Dafydd Davies gerdded pob cam i Aberystwyth a cherdded yr holl ffordd yn ôl gyda dwy neu dair potel o'r gwin anfeddwol ar ei gefn. Daeth hyn yn dystiolaeth gref o blaid achos y dirwestwyr. Pan aeth gair ar led fod y gwin anfeddwol ar gael yn Llantrisant a byddai ar gael i'w brofi yn y cyfarfodydd, bu hyn yn ddigon o fodd i Ieuan Myfyr a'i gefnogwyr gadw digon pell o'r cyfarfod y diwrnod hwnnw.

*Ar yr achlysur yma, cynhaliwyd y cyfarfod yn y farchnad 'a channoedd, os nad miloedd o bobl yn bresennol. Dechreuai y cyfarfod cyntaf am ddeg yn y bore, a pharhau hyd dau, a byddai cyfarfod arall drachefn, yn yr hwyr. Yn sôn am y dwr yn cael ei droi yn win, yr oedd y Parch Jones, Llangollen, yn dyfynnu Hebraeg a Groeg wrth ddadlau fod yr adnod yn y gwreiddiol yn llawer mwy eglur o du dirwest nag oedd yn y Gymraeg.' Ia', meddai rhywun, 'ond ffordd gwyddon ni eich bod yn dyfynnu'n gywir?'*

Yr oedd y Ffirad Horatio Thomas, Pentyrch, gwrthddirwestwr mawr, yn bresennol yn y cyfarfod a meddyliodd y byddai cael gafael ar Feibl Hebraeg yn gymorth. Felly, cyfrwyodd ei geffyl a ffwrdd ag ef yn un swydd i Landaf, at yr Esgob i mofyn Beibl Hebraeg. Bu fawr o dro yn dychwelyd i'r cyfafod â'r Beibl Hebraeg dan ei gesail.



*Y Ffirad Horatio Thomas*

*'Wedi cyrraedd y llwyfan, estynnodd y Ffirad y Beibl i Mr Jones i 'ddarllen' yr adnod yn Hebraeg, a oedd tipyn cyn hynny wedi ei adrodd. Agorodd Mr. Jones ei lyfr, ond erbyn edrych, hen Feibl ydoedd, heb ei rannu i benodau ac adnodau. Yr oedd Mr Jones felly yn methu dod o hyd i'r adnod. Yn y rhagolwg o hyn roedd Ffirad Thomas a Ieuan Myfyr hefyd yn gwenu yn gysurus ac yn hapus dros ben, tra difyrai eu canlynwyr eu hunain mewn taflu brawddegau cellweirus a direidus. 'Mynnwch chi ganwyll' meddai un. 'Ystun dy spectols iddo, Twm' meddai'r llall. 'Fallai ei bod wedi cilio' gwaeddai y trydydd. Yr oedd y dirwestwyr yn bur ddistaw y munudau hyn. Ond dyma law y dadleuydd i fyny. Distawrwydd! Y mae y bennod wedi ei ffeindio, a'r adnod hefyd; yn nawr ynte. Darllenodd Mr Jones yr adnod allan yn groew, a meddai, 'Dyna hi'.*

*Yr oedd pawb yn ddistaw ar hyn, yn neilltuol Ffirad Thomas a Ieuan Myfyr. 'Ia' meddai rhywun o'r dyrfa cyn hir, 'ond ffordd gwyddon ni eich bod yn ei ddarllen yn iawn? Beth wyddon ni am yr Hebraeg? Rhowch y Beibl i Ieuan Myfyr. 'Ia' cytunai eraill, darllenwch hi, Ieuan.*

*Estynnwyd y Beibl i Ieuan Myfyr - ond druan ohono, gorfu iddo gyfaddef yn ddafadaidd ddigon, nad oedd ef yn deall Hebraeg o gwbl, ac estynnodd y Beibl yn ôl. Dyw e ddim yn gallu darllen Hebraeg' murmurai'r dorf, ac ambell i bwff o chwerthin yn codi yma a thraw. Ond ymhen ennyd, dyma lais o'r tu ôl yn gweiddi, 'Ffirad Thomas, darllenwch chi hi'. Ia, Ia, meddai'r llu, 'darllenwch chi hi, Ffirad.'*

## Trafferth darllen y Beibl Hebraeg

*'Estynnwyd y Beibl Hebraeg i Ffirad Thomas, a derbyniodd yntau ef, fel pe bai yn derbyn planed nad oedd yr un gwydr wedi ei gweled o'r blaen. Agorodd y gyfrol sanctaidd, edrychodd iddi, ond nid oedd Ffirad Thomas yn gweled trem drwy yr Hebraeg, ac yn fuan estynnodd y gyfrol yn ei hôl, gan fwmian rhywbeth ei fod yntau wedi 'anghofio' Hebraeg!*

*Pan welodd y blaid ddirwestol hyn, torasant dros y ceulanau, mewn gorfoledd a digrifwch. 'Ha, Ha, Ha, meddent, 'ma'r Ffirad yn ffaelu darllen, a fynta wedi mofyn y llyfr. 'Ho, Ho, Ho, y Firad yn ffaelu darllen, a fyntau wedi byrchga i Landaf, i fofyn y Beibl, Ho, Ho, Ho!*

*Ar yr un adeg yr oedd y blaid ddirwestol yn cnoi eu tafodau, ac yn chwythu allan doraeth o ddirmyg ar eu cynrychiolwyr. 'Twt. baw, beth shwd Ffirad yna, meddai rhywun, 'Hela ac ifad cwrw ma hwna o hyd, wai' atebai rhywun arall. 'Dos dim un o nhw yn werth tatan i ddadla' meddai trydydd. 'Bachgen' gwaeddai pedwerydd, 'on ni'n meddwl fod y ffirad yn gallu darllen popeth!*

*Daeth y ddadl i ben. Profodd potelau Dafydd Davies a'r adnod Hebraeg, yn rhy galed i'r gelyn. Cariodd y dirwestwyr y dydd, felly, o ddigon. Dychwelodd Ieuan Myfyr a Ffirad Thomas, a'u canlynwyr, - wel, i'r dafarn, mae'n lled debyg, i foddi eu siomedigaeth mewn diod'.*

## Agwedd syfrdanol aelodau'r capel

Mae y Dr R. Elwyn Hughes wedi darganfod sawl 'perl' arall sy'n werth ei ailgyhoeddi. Mae un ohonynt yn cyfeirio at y sefyllfa a oedd yn bodoli yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth, Pentyrch yn y pum degau. Yn yr hanesyn hyn, mae Pan Jones yn cyfeirio at agwedd syfrdanol aelodau'r capel yn y cyfnod hwnnw tuag at ysmygu a diota er eu bod o dan weinidogaeth oleuedig John Jones, pregethwr 'llym' a adnabyddid ar gyfer meithder ei bregethau - ' ni wnai fawr o drefn arni heb gael yn agos i awr ati' (Y Parch. John Jones, Pentyrch' *Tywysydd y Plant 4*, 1874).

Fe ddaeth Pan Jones i Bentyrch i weithio fel crydd. Yn syth ar ôl ymaelodi yng Nghapel Bethlehem, dechreuodd ef fynegi ei farn ynglŷn â'r ddiod felltith.

## Yn ei eiriau ei hunan:

*'Gofynais yn y Gyfeillach nos Sabath, os caniateid i'r Parch. W. Edwards, Aberdar, ddyfod yno i draddodi araeth ar ddirwest. Dim ateb. Gofynnais yr un cwestiwn nos Sabath canlynol. Dim ateb. Gofynais yr un gofyniad drachefn y trydydd Sabath. Ar y gair, bloeddiodd un o wyr y set fawr 'dylai y crwt yna gael ei ddysgyblu am godi terfysg yn yr Eglwys'... Terfynwyd y Gyfeillach heb i mi gael un atebiad. Yr oedd lle tân yn y Capel fel mewn cegin amaethdy. a dyma chwech o wyr y set fawr a'r gweinidog yn dyfod at y tân ac yn dechrau ysmocio. Dyna y tro cyntaf i mi weled ysmocio mewn capel. Ac yno, yn y mwg, yr oeddynt yn cyhoeddi melltithion ar fy mhen am aflonyddu ar heddwch yr eglwys. Wedi mynd adref, anfonodd un o'r chwech ei ferch i geisio chwart o gwrw 'o spite i ditotaliaeth y crwt yma' ond cyn 10.30 drannoeth, yr oedd y Cholera wedi ei symud ef i fyd arall, Ar ôl hynny, agorwyd y capel i ddirwest ar unwaith, a phan ddaeth Mr. Edwards yno, cafodd loniad y Capel o gynulleidfa'* (E. Pan Jones, Oes gofion neu fraslun o hanes fy mywyd. Bala d.d. 1. 17).

Ceisiais godi cil y llen i ddangos pa mor ffyrnig, a digrif yn aml, y bu y frwydr rhwng y ddwy garfan. Tybed oes gan ddarllenwyr *Y Casglwr* wybodaeth am y mudiad yn eu broydd hwy?